# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 30 Tachwedd 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.
Diolchwyd i'r Clerc am edrych i mewn i'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod hybrid. Nodwyd fod y Clerc wedi archebu meicroffon a 'speaker', ac yn mynd i rhoid cynnig ar gyfarfod hybrid ym mis Rhagfyr.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Huw Jones, Einir Williams a Rheinallt Puw.

2. **Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**3. Materion Brys**
**3.1 Adroddiad Ariannol –** Cynhelir cyfarfod is-bwyllgor cyllid ar yr 21ain o Dachwedd. Adroddwyd bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn fuan yn mis Ionawr i drafod y archeb ddrafft. Y Clerc i gylchredeg y cyfrifon i'r aelodau.
**3.2 Gwasanaeth Bws Gerlan –** Nodwyd siom fod Arriva yn bwriadu canslo'r gwasanaeth i Gerlan o mis Ionawr ymlaen. Adroddwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw a Huw Davies, Partneriaeth Ogwen yn edrych i fewn i'r mater. Cytunwyd y bydd y Clerc yn llunio llythyr cryf a'i danfon at Arriva i gwrthwynebu'r penderfyniad hwn.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Lloches Bws Lon Newydd –** Adroddwyd fod y darnau cywir wedi cyrraedd a fod y gwaith wedi gael ei gwblhau.
**5.2 Maes parcio wrth y Sior, Carneddi – cais i ail beintio y llinellau –** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau - ar y gweill.

**5.3 Jenny Jones – Japanese Knotweed wrth Bont Twr –** Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â Zip World – nodwyd fod Zip World wedi gael contractwr allan i chwistrellu'r llysiau dial, ac fydd angen chwistrellu'r planhigyn dros gyfnod o 3 mlynedd.
**5.4 Llinellau Melyn Ffordd Llwyn Bleddyn –** Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu a Cyngor Gwynedd i ofyn i dynnu'r llinellau melyn ar ffordd Llwyn Bleddyn, dim ymateb hyd yn hyn.
**5.5 Clwb Ieuenctid Bethesda –** Nodwyd fod y Clwb Ieuenctid wedi nodi ei siom eu bod ddim yn gael defnydd pwrpasol o lawr uchaf Cefnfaes fel yr oedd yn y gorffennol, ond yn anffodus mae'r adeilad a'i ddefnydd wedi newid yn sylweddol ers i Bartneriaeth Ogwen cymeryd y les. Y Clerc wedi cysylltu gyda Partneriaeth Ogwen i ofyn iddynt os oes modd i'r Clwb Ieuenctid defnyddio'r llawr uchaf ar bos Lun a Iau, ond yn anffodus nid yw hynny'n bosib. Y Bartneriaeth wedi cysylltu â Bryn Roberts o Gyngor Gwynedd i gynnig y llawr uchaf pob nos Lun , ond yn anffodus nid oes posib gwarantu fod y lawr uchaf ar gael iddynt pob nos Iau. Adroddwyd y Clerc fod aelodau'r clwb wedi bod yn rhoi papur toiled cyfa i lawr y toiled yng Nghefnfaes, ac eu bod wedi gorfod galw contractwyr draeniau allan tair gwaith hyd yn hyn, sy'n gost sylweddol i'r Bartneriaeth.

**6. Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig**
Y Clerc wedi derbyn 2 pris am y gwaith ac yn ganol trafodaethau hefo Cyngor Gwynedd ynglyn â grantiau posib i ariannu'r gwaith. Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, y clerc i drefnu cyfarfod cyn gynted a phosib hefo'r grwp ffocws .

**7. Sedd Wag**
Adroddwyd fod y Cyng. Elin Williams wedi gorfod sefyll i lawr o'i sedd yn ward Rachub, y Clerc i hysbysu'r adran etholiadau yn Cyngor Gwynedd. Y Clerc i danfon llythyr o ddiolch i Elin.

**8. Toriadau Gwair**
Nodwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi os oes modd talu am toriadau ychwanegol ar ochr yr A5 – y Clerc wedi bod mewn cyswllt gyda Clerc Cyngor Pentir i holi am eu trefniadau nhw. Cytunwyd y bydd y Clerc yn holi Cyngor Gwynedd am codi'r gwair ar ôl y 3 toriad cyntaf ac i holi am 3 torri a codi ychwanegol, felly cyfanswm o 6 toriad.

**9. Goleuadau Nadolig**
Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn dyfynbris gan Cyngor Gwynedd am y gwaith atgyweirio ar rhai o'r adeiladu yn nghanol y stryd – cytunwyd y bydd y Cyngor Cymuned yn ariannu'r gwelliannau hyn.

**10. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y Clerc, Cyngr. Ann Williams a Linda Brown wedi cyfarfod gyda perchennog y tir ac wedi dod i gytundeb gyda pris gwerthiant y tir. Y Clerc i gyrru ymlaen hefo trefniadau i brynu'r tir mewn sylw.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2023'
**11.1 Cyng. Rheinallt Puw – Ystyried gosod CCTV ym Maes Parcio Pantdreiniog –** Y Clerc i gael pris cyn gwneud penderfyniad.
**11.2 Gwasanaeth Ieuenctid –Trefniadau Clwb Ieuenctid Bethesda 2024/25 –**
Penderfynwyd fod y Cyngor yn hapus iawn i ariannu'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn hon.
**11.3 Cyngor Gwynedd** – **Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd – Cytundeb Cyflawni –** danfon unrhyw sylwadau fel unigolion erbyn 7 Rhagfyr 2023.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR** | |
| Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C23/0547/13/LL** | |
| Spar Stores, High Street, Bethesda, LL57 3AR | Creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0729/13/LL** | |
| Bron Arfon, Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub | Trosi adeilad allanol yn 1rh. Uned Gosod Gwyliau ynghyd â phob Datblygiad Cysylltiedig arall<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0854/13/TR** | |
| Tir ger Ffordd Tanybwlch, Rachub. | Gosod polyn a thrawsnewid HV<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Bob Parry (Survey & Valuation) | Gwerthusiad tir ar gyfer Maes Parcio Gerlan | £180.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Rhisgl ar gyfer Cae Chwarae Pantdreiniog | £106.80 |
| Partneriaeth Ogwen | Meicroffon a Speaker | £209.98 |
| Partneriaeth Ogwen | Torch Sul y Cofio | £28.98 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £255.60 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £344.57 |
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £33.63 |
| ROSPA Play Safety | Archwiliad Cae Chwarae Pantdreiniog | £302.40 |
| John Wyn Jones | Cyflog Hydref | £364.00 |
| CThEM | TWE Hydref | £91.00 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £101.20 |